# Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

**2021 dsc 4**

## RHAN 2

CWRICWLWM MEWN YSGOLION A GYNHELIR, YSGOLION MEITHRIN A GYNHELIR AC ADDYSG FEITHRIN A GYLLIDIR OND NAS CYNHELIR

## PENNOD 4

GWEITHREDU CWRICWLWM: EITHRIADAU

### 41 Disgyblion a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol

(1) Caiff y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a ddisgrifir mewn cynllun datblygu unigol a lunnir neu a gynhelir gan awdurdod lleol o dan Ran 2 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (dccc 2) gynnwys darpariaeth—

(a) sy'n datgymhwyso adrannau 27, 28, 29 a 30, neu unrhyw un neu ragor o'r adrannau hynny, mewn perthynas â disgybl;

(b) sy'n cymhwyso adrannau 27, 28, 29 a 30, neu unrhyw un neu ragor o'r adrannau hynny, mewn perthynas â disgybl gyda'r addasiadau a bennir yn y cynllun;

(c) sy'n datgymhwyso adrannau 34, 35 a 36, neu unrhyw un neu ragor o'r adrannau hynny, mewn perthynas â phlentyn;

(d) sy'n cymhwyso adrannau 34, 35 a 36, neu unrhyw un neu ragor o'r adrannau hynny, mewn perthynas â phlentyn gyda'r addasiadau a bennir yn y cynllun.

(2) Caiff y ddarpariaeth addysgol arbennig a bennir mewn cynllun AIG o dan adran 37 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (p. 6) (cynlluniau addysg, iechyd a gofal) gynnwys darpariaeth—

(a) sy'n datgymhwyso adrannau 27, 28, 29 a 30, neu unrhyw un neu ragor o'r adrannau hynny, mewn perthynas â disgybl;

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Adran 41 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 09 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(b) sy'n cymhwyso adrannau 27, 28, 29 a 30, neu unrhyw un neu ragor o'r adrannau hynny, mewn perthynas â disgybl gyda'r addasiadau a bennir yn y cynllun;

(c) sy'n datgymhwyso adrannau 34, 35 a 36, neu unrhyw un neu ragor o'r adrannau hynny, mewn perthynas â phlentyn;

(d) sy'n cymhwyso adrannau 34, 35 a 36, neu unrhyw un neu ragor o'r adrannau hynny, mewn perthynas â phlentyn gyda'r addasiadau a bennir yn y cynllun.

(3) Ond ni chaiff cynllun datblygu unigol neu gynllun AIG gynnwys darpariaeth y cyfeirir ati yn is-adran (1) neu (2) oni bai bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni y bydd y cwricwlwm a gaiff ei weithredu i'r plentyn o ganlyniad i'r datgymhwyso neu'r addasu—

(a) yn galluogi'r disgybl neu'r plentyn i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben,

(b) yn sicrhau addysgu a dysgu sy'n cynnig cynnydd priodol ar gyfer y disgybl neu'r plentyn,

(c) yn addas ar gyfer oedran, gallu a dawn y disgybl neu'r plentyn, a

(d) yn sicrhau addysgu a dysgu eang a chytbwys i'r disgybl neu'r plentyn.

(4) Caiff rheoliadau bennu amodau pellach y mae rhaid eu bodloni cyn y caiff cynllun datblygu unigol neu gynllun AIG gynnwys darpariaeth y cyfeirir ati yn is-adran (1) neu (2).

(5) Yn yr adran hon, mae'r cyfeiriad at yr awdurdod lleol yn gyfeiriad at yr awdurdod lleol sy'n llunio neu'n cynnal y cynllun datblygu unigol neu sy'n sicrhau bod y cynllun AIG yn cael ei lunio, ei ddiwygio neu ei ddisodli.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 41 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

**I2** A. 41 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, ergl. 5(1)(2)(c), **Atod.**

**I3** A. 41 mewn grym ar 1.9.2023 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, **ergl. 6(1)**(2)(c)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Adran 41 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 09 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**
– s. 41 coming into force by S.I. 2022/652 art. 7(c)
– s. 41 coming into force by S.I. 2022/652 art. 8(a)
– s. 41 coming into force by S.I. 2022/652 art. 9(a)